



Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

MAE'N RHAI'D
GWEITHREDU
NAWR

YDYCH CHI'N BAROD AM REOLAU NEWYDD AR GYFER BUSNES GYDA'R UE?

Neges frys gan yr Ysgrifennydd Busnes

Dim ond ychydig **dros fis** sydd i fynd bellach tan ddiwedd y cyfnod pontio a bydd rheolau newydd i ddilyn o'r 1^{af} o Ionawr 2021 ymlaen. Fel yr Ysgrifennydd Busnes, rwy'n eich annog i **WEITHREDU NAWR** i osgoi ymyriadau i weithrediadau eich busnes pan ddaw'r cyfnod pontio i ben.

Fel busnes yn y sector gwyddorau bywyd, gallwch ddarganfod beth sydd angen i chi wneud wrth fynd at gov.uk/life-2021. Y prif gamau y gallwch eu cymryd nawr i baratoi ar gyfer hyn yw:

- 1. Gwiriwch beth yw'r rheolau newydd o ran mewnfurio ac allforio nwyddau rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Phrydain Fawr o'r 1^{af} o Ionawr 2021. Bydd rheolau gwahanol yn berthnasol yng Ngogledd Iwerddon.**
Gall eich busnes wynebu oedi, aflonyddwch neu gostau gweinyddol os na fyddwch yn cydymffurfio â'r gweithdrefnau tollau newydd o'r 1^{af} o Ionawr 2021.
- 2. Defnyddiwch GOV.UK i ddod o hyd i wybodaeth am y newidiadau fydd yn effeithio ar weithgynhyrchion, megis gofynion marcio newydd neu harddeliadau sydd eu hangen i sicrhau bod eich busnes yn barod i werthu nwyddau yn y DU a'r UE.**
Efallai na fyddwch yn gallu gwerthu eich nwyddau yn y DU a'r UE o'r 1^{af} o Ionawr 2021, oni bai eich bod yn gweithredu.
- 3. Paratowch ar gyfer gwneud datganiadau tollau.**
Mae gwneud datganiadau mewnfurio ac allforio yn broses gymhleth sy'n gofyn am sgiliau, gwybodaeth a thechnoleg gwybodaeth arbenigol. Os na allwch wneud datganiadau neu os byddwch yn darparu'r wybodaeth anghywir, gall eich busnes wynebu oediadau, aflonyddwch neu gostau gweinyddol.
- 4. Os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon.**
Daw Protocol Gogledd Iwerddon i rym ar ddiwedd y cyfnod pontio. Bydd yna ddarpariaethau arbennig a fydd yn berthnasol i Ogledd Iwerddon yn unig, felly os ydych yn symud nwyddau i mewn i, allan o, neu drwy Ogledd Iwerddon, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio'r cyfarwyddyd diweddaraf ar: gov.uk/northern-ireland-trade



**DARGANFYDDWCH
BETH SYDD ANGEN
I CHI EI WNEUD
DRWY DDEFNYDDIO'R
OFFERYN GWIRIO**



GOV.UK/LIFE-2021

- ✓ Gwiriwch**
- ✓ Newidiwch**
- ✓ Ewch**

GALL Y NEWIDIADAU GYMRYD MWY O AMSER I'W GWEITHREDU NAG YR YDYCH CHI'N MEDDWL, FELLY DECHREUWCH HEDDIW.

Mae'r Llywodraeth yn darparu amrywiaeth o gefnogaeth, gan gynnwys webinarau i'ch arwain drwy'r newidiadau. Mae'r rhain ar gael i'w gwyllo ar: [gov.uk/transition-webinars](https://www.gov.uk/transition-webinars). Dylech hefyd wirio gyda'ch cyflenwyr a'ch cwsmeriaid eu bod nhw hefyd yn cymryd unrhyw gamau angenrheidiol.

Mae hwn yn gyfnod heriol, ond mae'r cyfnod pontio yn dod i ben ar yr 31^{ain} o Ragfyr 2020 ac **NI FYDD ESTYNIAD**. Oni bai eich bod yn gweithredu nawr, mae risg y bydd ymyriadau i weithrediadau eich busnes. Bydd y Llywodraeth yno i'ch helpu i gymryd mantais o'r nifer o gyfleoedd newydd a ddaw yn sgil bod yn genedl fasnachu annibynnol.

Yn gywir,



Yr Gwir Anh. Alok Sharma MP

Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes,
Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol



**SGANIWCH I WRANDO
AR EIN GWEMINARAU**

-  **Gwiriwch**
-  **Newidiwch**
-  **Ewch**



Adran Busnes,
Ynni & Strategaeth
Ddiwydiannol

**MAE RHEOLAU NEWYDD AR GYFER
BUSNES GYDAG EWROP YN
DECHRAU AR 01 INOAW 2021**
MAE CAMAU SYDD ANGEN I'CH BUSNES EU
CYMRYD NAWR AR [GOV.UK/LIFE-2021](https://www.gov.uk/life-2021)